Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

RHIFYN 10 - MEHEFIN 2005

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob deufis, yw'ch helpu chi, a phobl debyg i chi, i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Anghydffurfwyr Adeiladol

Yn ôl Keith Grint, darllenydd ym maes ymddygiad cyfundrefnol ym Mhrifysgol Rhydychen, y bobl bwysicaf yn y cwmni yw'r "anghydffurfwyr adeiladol" sy'n barod i ddweud wrth arweinwyr pryd maen nhw'n gwneud camgymeriad.

Beth yw'ch barn chi am y rheiny sy'n fodlon dweud "na" yn eich sefydliad chi? Fyddwch chi'n cael eich tynnu i mewn i wrthdrawiad gwastraffus gyda nhw ynteu a fyddwch chi'n harneisio'u hegni a'u mewnwelediad lle bo hynny'n briodol i wella'ch perfformiad chi fel rheolwr?

Amser i Symud Ymlaen?

Mae rhai sylwedyddion yn awgrymu bod yna gyfnod optimwm i'w dreulio mewn unrhyw swydd rheoli, ac mae perygl y bydd aros y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw yn eich rhoi mewn parth cysur lle gallech droi yn eich unfan.

Ydych chi'n derbyn y ddamcaniaeth yma? Oes angen bob amser newid swyddi er mwyn symud ymlaen yn eich gyrfa? Pa gyfnod, ar gyfartaledd, ydych chi wedi'i dreulio ym mhob un o'ch swyddi a beth, yn eich barn chi, yw'r arwyddion ei bod yn amser symud ymlaen o bosib?

Rhwygo'r Cynllun!

Mae Simon Calkin, Golygydd Rheolaeth papur newydd yr Observer yn rhybuddio yn erbyn ymddiried gormod mewn cynlluniau blynyddol. Mae'n dweud "Dydy busnes ddim tamaid mwy tebygol na bywyd o ufuddhau i gylchredau 12 mis."

Pe byddai'ch cynllun blynyddol yn mynd ar gyfeiliorn fyddech chi'n fodlon fel mae Calkin yn awgrymu, ei rwygo'n ddarnau a dechrau eto, p'un a fyddech chi'n dal ato gan bod angen cynlluniau i gadw trefn ar bethau?

A oes angen brys?

Mae e-bost yn caniatáu i'r holl geisiadau a materion lanio yn syth ar ddesg y prif swyddog yn y sefydliad. Gan bod angen delio ag ef ar frys, yn ôl pob golwg, a does neb awydd tagfa e-bost, mae'n wirioneddol bosib treulio'r rhan fwyaf o'r diwrnod yn delio â chynnwys eich mewnflwch a dim arall.

A oes gennych chi system sy'n golygu bod gennych chi reolaeth ar eich negeseuon e-bost, p'un ai'r neges e-bost ddiweddaraf i ymddangos ar eich sgrin sy'n arwain eich agenda ddyddiol. Sut allwch chi bennu pryd a sut i ymateb heb elyniaethu'r rhai sy'n gohebu â chi?

Ei Gadw'n Syml

Roedd y gwyddonydd a'r athronydd Leonardo Da Vinci o'r farn mai "symlrwydd yw'r soffistigeiddrwydd eithaf."

Ond ai opsiwn hawdd yw hyn i'r rheiny sydd wrth reddf yn methu â dioddef damcaniaeth rheolaeth, p'un a yw'n wir bod datrysiadau syml yn aml yn ateb y problemau mwyaf dyrys ac anhydrin yn y gweithle?

Adolygiad o wefan

www.50lessons.com

Mae www.50lessons.com wedi adeiladu llyfrgell ddigidol â mynegai cyflawn o gynnwys hyfforddiant mewn arweinyddiaeth i weithredwyr, ac mae eisoes wedi datblygu dros 350 o wersi sy'n rhannu arferion gorau. Mae'r gweithredwyr sy'n cymryd rhan yn cynrychioli rhai o'r arweinwyr mwyaf blaenllaw o'r Sector Preifat a'r Sector Cyhoeddus. Gallwch lawrlwytho treial 7 diwrnod yn rhad ac am ddim, ac mae hwn yn caniatáu ichi weld unrhyw bum gwers o'r llyfrgell, ac fe ddylai hyn roi blas ichi ar led a dyfnder y deunydd sydd ar gael.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council